

Adders are Amazing! Gwiberod Gwych!

23. CYFLWYNIADAU I GRWPIAU O OEDOLION

Yn Ystod y prosiect Gwiberod Gwych, lledaenodd y newyddion ein bod ar gael i siarad â grwpiau a oedd â diddordeb yn go glou. Roedd llawer o fathau gwahanol o grwpiau yn awyddus i glywed am ein hymlusgiaid a'n hamffibiaid brodorol. Os hoffech chi ledaenu'r gair, a helpu gwiberod a herpetoffawna brodorol eraill, beth am roi cyflwyniadau i'r cyhoedd a mynd at grwpiau gwahanol yn eich ardal chi? Cofiwch fod llawer o grwpiau, er enghraifft Sefydliad y Merched a Phrifysgol y 3edd Oes yn trefnu eu cyflwyniadau sawl mis ymlaen llaw. Bydd rhai hefyd yn talu costau teithio rhesymol, felly mae'n werth holi. Enghreifftiau o grwpiau y gallech gysylltu â nhw:

- Grwpiau Sefydliad y Merched
- Prifysgol y 3edd Oes (U3A)
- Grwpiau bywyd gwyllt/cadwraeth lleol, er enghraifft grwpiau rhanbarthol Ymddiriedolaethau Natur
- Cyngorau Cymuned
- Grwpiau hanes lleol
- Ffermwyr Ifanc
- Parciau Cenedlaethol
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Canolfannau croeso lleol

Neu, beth am hurio neuadd y pentref a hysbysebu cyflwyniad yn lleol?

Mae llawer o grwpiau yn gallu darparu gliniadur, uwchdaflunydd a sgrin, felly y cyfan sydd arnoch ei angen yw'ch cyflwyniad ar gof bach. Mae cymhorthion gweledol yn fuddiol iawn - dangoswch luniau hardd, ewch â chroen wedi'i ddiosg, neu fodolau. Rydym yn ceisio gwneud i bobl ryfeddu ar y wiber a'i gwerthfawrogi, ond, cofiwch nad yw pob un yn hoff o nadroedd, felly dywedwch ymlaen llaw eich bod yn bwriadu dangos lluniau, rhag ofn iddynt gael eu syfrdanu.

Fel gyda: '22. Ymgysylltu â'r Gymuned', efallai y byddwch yn dymuno mesur teimladau'r grwp tuag at nadroedd cyn i chi ddechrau, er mwyn cael amcan o deimladau'r gynulleidfa. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dweud eu bod yn teimlo llawer yn fwy cartrefol gyda gwiberod ar ôl gweld cyflwyniad positif. Mae gan ARG UK adnoddau ar gyfer cyflwyniad PowerPoint er mwyn i chi ddechrau arni (mae ar gael ar y tudalennau 'Gwiberod Gwych!' ar wefan ARG UK www.arguk.org)

